Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Allt y Mynydd**

**Cartref Nyrsio Allt y Mynydd**
**Llanybydder**
**SA40 9RF**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Allt y Mynydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Ashberry Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] 28 Medi 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Allt y Mynydd yn cael cymorth gan staff cymwys a phrofiadol sy'n dosturiol ac yn garedig. Caiff llesiant y bobl ei hybu ac mae digonedd o gyfleoedd i ymuno â gweithgareddau os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn fanwl ac yn cael eu diweddaru gydag adolygiadau rheolaidd yn unol â deddfwriaeth. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u galluogi i ymgymryd â'u rolau ac maent yn cael yr hyfforddiant a'r sesiynau goruchwylio gofynnol.

Mae'r rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mae prosesau llywodraethu a monitro cynhwysfawr ar waith i adolygu a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn dewis treulio amser yn eu hystafelloedd gwely eu hunain neu ymuno ag eraill yn yr ardaloedd cymunedol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod ganddynt amser i'w dreulio gyda'r bobl i ymgymryd â gweithgareddau yn ogystal â bodloni eu hanghenion gofal sylfaenol. Gall hyn amrywio o eistedd gyda'r bobl i sgwrsio neu chwarae cardiau â nhw i chwarae bingo neu gwblhau crefftau. Dywedodd aelod o deulu wrthym, "*She looks like a queen, they even put curlers in her hair*". Caiff teuluoedd a ffrindiau eu croesawu i'r gwasanaeth a gallant ymweld ar unrhyw adeg. Mae un person yn mwynhau ymweliadau gan gi y teulu. Mae tîm o Gydlynwyr Gweithgareddau yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau ac yn ceisio barn y bobl i werthuso eu hoff bethau/cas bethau.

Mae'r nifer priodol o'r staff gofal yn bresennol ar bob sifft a gall y staff dreulio amser gyda'r bobl, gan roi cymorth iddynt gyda'u hanghenion gofal a sicrhau bod eu llesiant yn cael ei hybu. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym "*When we're fully staffed everything flows, there's no point in rushing people".*

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth personol yn gyfredol ac yn hysbysu'r staff gofal ar sut i fodloni anghenion unigolion. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu gweld pan fydd eu hanghenion yn newid. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, *"We know when someone's not right, like if someone has lost weight".* Mae'r cofnodion yn dangos y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn ôl yr angen i gefnogi iechyd a llesiant y bobl.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae rhai o'r staff gofal yn siarad Cymraeg ac mae'r staff eraill nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd wedi dysgu rhai geiriau er mwyn galluogi'r bobl i siarad yn eu dewis iaith. Mae rhai arwyddion dwyieithog i'w gweld o amgylch y gwasanaeth ac mae'r staff wrthi'n ceisio cynyddu nifer yr arwyddion dwyieithog yn y cartref.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel ac mae'r staff yn deall y weithdrefn ar gyfer amddiffyn pobl agored i niwed. Mae'r staff yn hapus i godi unrhyw bryderon gydag uwch aelodau o staff ac yn hyderus y bydd camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae'n rhaid i ymwelwyr ganu'r gloch er mwyn cael mynediad. Defnyddir system fewngofnodi hefyd ar gyfer y staff a'r ymwelwyr.

## Gofal a Chymorth

Defnyddir system electronig ar gyfer yr holl gofnodion, gan gynnwys cynlluniau Gofal a Chymorth Personol a chofnodion gofal dyddiol. Mae'r cynlluniau gofal yn drylwyr iawn ac yn gyfredol, gan adlewyrchu anghenion cymorth presennol y bobl. Nid yw'r eirfa yn y cofnodion dyddiol bob amser yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a fydd yn mynd i'r afael â'r mater gyda'r staff gofal. Byddai'n fuddiol pe bai'r cynlluniau dyddiol yn cynnwys mwy o fanylion am y ffordd mae'r person yn treulio ei ddiwrnod a'r gweithgareddau a gwblhawyd. Caiff hyn ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf. Cynhelir adolygiadau yn unol â'r amserlenni a bennir yn y rheoliadau a chaiff unrhyw newidiadau eu nodi yng nghofnodlyfr dyddiol y person er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol ohonynt. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu a chaiff eu dymuniadau a'u teimladau eu hystyried. Dywedodd aelod o deulu wrthym, *“We're always kept in the loop”.*

Mae'r asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar gyfer y bobl â phroblemau symudedd, gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion yn ystafelloedd y bobl a'r cofnodlyfrau dyddiol bod iechyd y croen yn cael ei fonitro. Mae systemau diogel ar waith i'r staff gofal gefnogi'r bobl gyda'u meddyginiaeth. Mae Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) ar waith a chânt eu cwblhau fel sy'n briodol. Caiff archwiliadau meddyginiaeth eu cynnal yn rheolaidd ac mae cymwyseddau a hyfforddiant meddyginiaeth y staff gofal yn gyfredol.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Dywedodd un person, “*We sometimes have to wait a bit if it's mealtimes, I mostly get help when I need it”.* Dywedodd person arall, *“I have everything I need*”. Mae'r staff gofal yn amyneddgar a pharchus a gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhyngddynt â'r rheini y maent yn eu cefnogi. Dywedodd un person wrthym, “*They're most kind to me”.* Mae aelodau o deuluoedd yn fodlon ar y cymorth y mae eu perthnasau yn ei gael. Mae'r sylwadau yn cynnwys, *“We're thrilled the way they are cared for, not one complaint”* ac *“I have only one word, fantastic, I can sleep at night”.*

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Caiff unrhyw fân atgyweiriadau eu hystyried wrth i'r tîm cynnal a chadw eu nodi a defnyddir contractwyr i gwblhau unrhyw waith mawr lle mae angen crefftwyr. Mae atgyweiriadau wedi'u gwneud i'r to yn ddiweddar, yn dilyn difrod a achoswyd gan storm ac mae'r fynedfa flaen/cyntedd a'r heulfan wrthi'n cael eu hadnewyddu. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ers cryn amser yn sgil sawl mater. Fodd bynnag, mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau a bydd yn gwella golwg yr adeilad. Roedd yr heulfan yn cael cryn ddefnydd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth ac maent yn edrych ymlaen at gael ymlacio yno eto, unwaith y bydd y gwaith arni wedi'i chwblhau.

Mae'r cofnodion yn dangos bod archwiliadau a gwiriadau diogelwch cynhwysfawr a rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr adeilad a'r cyfarpar er mwyn lleihau'r risg i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff cyfarpar codi a symud arbenigol eu gwasanaethu'n rheolaidd a chynhelir profion ar y cyfarpar tân yn unol â'r amserlenni a bennir yn y rheoliadau. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng ar waith ar gyfer y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a gellir cael gafael arnynt yn rhwydd.

Mae gerddi helaeth yn yr awyr agored gyda chynlluniau i ddatblygu rhai o'r ardaloedd awyr agored er mwyn i'r bobl allu cael mynediad iddynt yn ddiogel. Yn ystod y misoedd cynnes, caiff y bobl gymorth i gerdded yn yr awyr agored o amgylch y tir ac mae tŷ gwydr ar gael i'r bobl fwynhau tyfu cynnyrch.

Mae ystafelloedd y bobl yn unigol ac wedi'u personoli ag eitemau o'u dewis a gallant eu haddurno fel y dymunant. Mae ffenestri mawr mewn nifer o'r ystafelloedd, gyda golygfeydd o gefn gwlad i'r bobl eu mwynhau.  Mae gan rai flychau bwydo adar ar y ffenestri hefyd, ac i'r rheini y mae'n well ganddynt dreulio amser yn eu hystafelloedd mae hyn yn rhoi mwynhad iddynt.

Byddai'n werth ailaddurno rhai ardaloedd o'r cartref ac mae hyn yn broses barhaus. Mae caffi retro ar y safle, sydd hefyd yn cael ei ailwampio i'w ddefnyddio gan y bobl a'u teuluoedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac mae ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith. Caiff system gyfrifiadurol Gofal Iechyd 'Radar' ei defnyddio gan y rheolwr ansawdd a chydymffurfio er mwyn cynnal archwiliadau amserol a manwl, cwblhau'r broses o fonitro pob agwedd ar y gwasanaeth ac i nodi meysydd i'w gwella. Caiff unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen yn dilyn y gwiriadau a'r archwiliadau eu hystyried a'u hadolygu yn ystod cyfarfodydd misol cymorth darparwr gyda'r rheolwr a/neu uwch aelod o'r staff. Cynhelir ymweliadau Rheoliad 73 gan yr Unigolyn Cyfrifol ac mae'r adroddiadau yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y gwasanaeth er mwyn iddynt roi eu barn a rhoi cyfle iddynt rannu unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Mae'r holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Reolwr y Cartref, ond nid oedd pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch dîm rheoli/Unigolyn Cyfrifol. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw faterion gydag unrhyw un o'r rheolwyr ac y byddant yn mynd i'r afael â nhw. Roedd sylwadau gan y staff yn cynnwys, "*I feel supported, they listen to you and have an open-door policy"* a *"X (manager) is brilliant, very kind to me and very helpful".* Dywedodd aelod arall o'r staff wrthym *"X (manager) will bend over backwards to help anyone".*

Mae system recriwtio gadarn ar waith a chaiff yr holl ddogfennaeth angenrheidiol megis dogfennau Adnabod, Geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r holl staff wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a chânt yr hyfforddiant sefydlu a'r hyfforddiant gorfodol angenrheidiol i ymgymryd â'u rolau.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ychwanegol parhaus. Mae'r hyfforddiant wedi'i gynnal ar-lein ers dechrau'r pandemig, ac er y bydd y rhan fwyaf ohono yn parhau i gael ei gynnal ar-lein, mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu, megis hyfforddiant Codi a Chario. Dywedodd y staff wrthym fod cyfleoedd da i gael hyfforddiant ac i ddatblygu ac mae rhai o'r staff wedi cael y cyfle i ymgymryd â'r cwrs 'Uwch-ymarferydd' yn ddiweddar sy'n eu galluogi i ymgymryd â meysydd gofal mwy cymhleth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/03/2023